



Customer Privacy Notice

Customer Privacy Notice ISSUE V1.0 17.05.18

CADNANT PLANNING LTD 1-2 Connaught House, Parc Busnes Riverside, Ffordd Benarth,
Conwy, LL32 8UB

CYFLWYNIAD

Croeso i'n hysbysiad preifatrwydd.

Rydym yn parchu eich preifatrwydd ac yn ymroddedig i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol, y byddwn yn cyfeirio ato fel "data personol". Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi gwybod i chi sut fyddwn yn gofalu am eich data personol ac am eich hawliau preifatrwydd. Mae'n atodol i unrhyw hysbysiadau ac ni fwriedir iddo eu diystyru.

Rydym wedi ceisio bod yn gryno a chlir. Rydym yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth neu esboniad atodol.

PWY YDYN NI

Rheolydd Data (cyfeiri ato fel "ni/ninnau/ein")	Cadnant Planning Cyf.
Enw neu deitl y Rheolwr Diogelu Data:	Rheolwr Gyfarwyddwr Rhys Davies
Cyfeiriad:	1-2 Connaught House, Parc Busnes Riverside, Ffordd Benarth, Conwy, LL32 8UB
Ffôn:	01492 581800
E-bost:	info@cadnantplanning.co.uk

Mae gennych hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) (www.ico.org.uk). Rydym yn gwerthfawrogi cael cyfle i ddeli gyda'ch pryderon yn gyntaf.

NEWIDIADAU

Cafodd y fersiwn hon ei diweddarau ddiwethaf ar 17^{eg} Mai 2018 a gellir gweld fersiynau

hanesyddol trwy gysylltu â ni.

Mae'n bwysig fod y data personol sydd gennym amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau.

SUT YDYN NI'N CASGLU EICH DATA PERSONOL

Gallwch roi data i ni ar lafar neu trwy lenwi ffurflenni neu ohebu gyda ni trwy'r post, ffôn, e-bost neu fel arall, er enghraifft pan fyddwch yn:

- mynd i gontract gyda ni neu'n cysylltu â ni ynghylch gwneud hynny;
- cysylltu â ni am unrhyw gontract sydd gennym gyda chi;
- gofyn i ni anfon deunydd marchnata atoch;
- cymryd rhan mewn cystadleuaeth, hyrwyddiad neu arolwg;
- rhoi adborth i ni.

Efallai y byddwn hefyd yn derbyn data personol amdanoch gan drydydd partion a ffynonellau cyhoeddus, yn cynnwys cwsmeriaid eraill pan fyddant yn rhyngweithio gyda ni ac (os yn berthnasol):

Pwy	Pryd
Ymgynghorwyr	Os byddwn yn gweithredu fel is-gontractwr, byddwn yn prosesu eich data fel fo angen er mwyn cyflawni ein contract.
Y Gofrestrfa Tir	Yn rhan o ymgynghoriad cyn cyflwyno cais (PAC), efallai y bydd angen i ni ymgynghori â chymdogion y safle y mae'r PAC yn berthnasol iddo, i gyflawni gofynion y PAC.

SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO'CH DATA

Fyddwn ni ddim ond yn defnyddio eich data personol pan fydd y gyfraith yn ein caniatáu i wneud hynny.

Isod rydym wedi sefydlu pam a sut ydyn ni'n bwriadu defnyddio eich data personol.

Diben/Gweithgaredd	Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yn cynnwys sail o ddiddordeb cyfreithlon
	<i>Addaser/ychwaneger, dileer fel bo'n briodol, gan restru ac esbonio pob defnydd arfaethedig. Ceir canllaw am weithgareddau marchnata uniongyrchol yn y BHPA Journal, 2018.2 tudalen 16.</i>
I'ch cofrestru chi gyda'n busnes	Cyflawni contract gyda chi
I gyflawni unrhyw gontract gyda	

<p>chi yn cynnwys:</p> <p>(a) Rheoli taliadau a ffioedd</p> <p>(b) Casglu ac adfer unrhyw arian sy'n ddyledus i ni</p> <p>(c) Delio ag unrhyw doriad</p>	<p>(a) Cyflawni contract gyda chi</p> <p>(b) Yn angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithiol (i gasglu dyledion sy'n daladwy i ni)</p> <p>(c) Yn angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithiol (i sicrhau cydymffurfiaid gydag amodau ein contract)</p>
<p>I reoli ein perthynas gyda chi, a fydd yn cynnwys:</p> <p>(a) Eich hysbysu am newid i'n hamodau neu bolisi preifatrwydd</p> <p>(b) Eich hysbysu am newidiadau i'n busnes sy'n berthnasol i chi</p>	<p>(a) Cyflawni contract gyda chi</p> <p>(b) Yn angenrheidiol i gydymffurfio gyda rhwymedigaeth gyfreithiol</p> <p>(c) Yn angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithiol (i gadw ein cofnodion yn gyfredol ac i astudio sut mae pobl yn defnyddio ein busnes)</p>
<p>I weinyddu a diogelu ein busnes a'n gwefan (yn cynnwys datrys problemau, dadansoddiad data, profion, cynnal a chadw'r system, cefnogaeth, adrodd a lletya data)</p>	<p>(a) Yn angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithiol (i redeg ein busnes, darparu gwasanaethau gweinyddol a TG, diogelwch rhwydwaith, i atal twyll ac yng nghydestun aildrefnu busnes neu ymarfer ailstrwythuro grŵp)</p> <p>(b) Yn angenrheidiol i gydymffurfio gyda rhwymedigaeth gyfreithiol</p>
<p>Gofyn i chi gymryd rhan mewn adolygiad, tyniad am wobr, cystadleuaeth neu i gwblhau arolwg</p>	<p>Yn angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithiol (i astudio sut mae pobl yn defnyddio ein busnes, i ddatblygu a thyfu ein busnes)</p>
<p>I ddarparu cynnwys a hysbysebion gwefan perthnasol i chi ac i fesur neu ddeall effeithiolrwydd yr hysbysebu a weinyddwn i chi</p>	<p>Yn angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithiol (i astudio sut mae pobl yn defnyddio ein busnes, i ddatblygu a thyfu ein busnes ac i hysbysu ein strategaeth farchnata)</p>

CYNIGION HYRWYDDO GENNYM NI

Efallai y byddwn yn defnyddio eich data personol i lunio barn ar beth ydyn ni'n feddwl y gallech fod eisiau neu angen, neu beth allai fod o ddiddordeb i chi.

Yna efallai y byddwn yn defnyddio eich data personol i anfon cyfathrebiadau marchnata atoch gennym ni os ydych chi wedi gofyn am wybodaeth gennym neu brynu nwyddau neu wasanaethau gennym neu os ydych chi wedi darparu eich manylion i ni pan fuoch yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth neu gofrestru ar gyfer hyrwyddiad ac, ym mhob achos, os nad ydych chi wedi optio allan o ddernyn y marchnata hwnnw.

MARCHNATA ARALL

Byddwn yn cael eich cydsyniad penodol i optio mewn cyn byddwn yn defnyddio eich data personol ar gyfer unrhyw ddibenion marchnata eraill neu'n ei rannu gydag unrhyw drydydd parti i ddibenion marchnata.

OPTIO ALLAN

Gallwch ofyn i ni neu drydydd partiön stopio anfon negeseuon marchnata atoch ar unrhyw adeg trwy gysylltu â'n Rheolwr Diogelu Data.

NEWID DIBEN

Sylwer y gallwn brosesu eich data personol heb eich gwybodaeth neu gydsyniad ble mae hyn yn ofynnol neu wedi ei ganiatáu gan y gyfraith.

Fodd bynnag, os ydym angen defnyddio eich data personol i ddiben newydd ac mae'r gyfraith yn ein caniatáu i wneud hynny, byddwn yn eich hysbysu ac yn esbonio'r sail gyfreithiol dros ein gweithredoedd.

YMWELWYR I'N GWEFAN

Os ydyn ni eisiau casglu gwybodaeth ble gellir eich adnabod yn bersonol trwy ein gwefan, byddwn yn agored am hyn.

Pan fydd rhywun yn ymweld â'n gwefan, efallai y byddwn yn defnyddio trydydd parti i gasglu gwybodaeth cofnod rhyngrwyd safonol a manylion patrymau ymddygiad ymwelwyr. Fe wnawn hyn i ddysgu pethau fel y nifer o ymwelwyr i amrywiol rannau'r safle. Fe brosesir yr wybodaeth hon mewn modd ble na ellir adnabod unrhyw un yn unig.

DOLENNI TRYDYDD PARTI

Gall ein gwefan gynnwys dolenni i wefannau trydydd partiön, ategolion a rhaglenni. Gall clicio ar y dolenni hynny neu alluogi'r cysylltiadau hynny ganiatáu i drydydd partiön gasglu neu rannu data amdanoch. Nid ni sy'n rheoli'r gwefannau trydydd parti hyn ac nid ydym yn gyfrifol am eu datganiadau preifatrwydd. Pan fyddwch chi'n gadael ein gwefan, rydym yn eich annog i ddarllen hysbysiad preifatrwydd pob gwefan y byddwn yn ymweld â hi.

OS NA FYDDWCH YN DARPARU EICH DATA PERSONOL

Os nad ydych chi yn darparu data personol i ni ac y byddai hyn yn ein hatal rhag cyflawni'r contract sydd gennym neu yr ydym yn ceisio ei sefydlu gyda chi, neu os yw'n achosi i ni fod yn torri'r gyfraith, efallai y bydd rhaid i ni ganslo ein contract. Byddwn yn eich hysbysu os yw hyn yn wir.

DATGELU EICH DATA PERSONOL

Efallai y byddwn yn rhannu eich data personol gyda thrydydd partion i'n helpu i rannu ein busnes neu gyflawni ein rhwymedigaethau i chi:

Enw	Sail cyfreithiol ar gyfer prosesu yn cynnwys sail o ddiddordeb cyfreithlon
Darparwyr gwasanaeth ac ar gyfer gweinyddu TG a system, yn cynnwys cadw cofnodion	Cyflawni contract gyda chi Yn angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithiol (cyflawni'r contract, defnyddio eich data fel yr ydym wedi disgrifio yn yr hysbysiad hwn).
Ein cynghorwyr proffesiynol yn cynnwys cyfreithwyr, bancwyr, archwilwyr ac yswirwyr.	Yn angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithiol (cydymffurfio gyda'n rhwymedigaethau cyfreithiol).
Cyllid a Thollau EM, rheolyddion ac awdurdodau eraill	Yn angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithiol (cydymffurfio gyda'n rhwymedigaethau cyfreithiol).

Gallwn hefyd rannu eich data personol gydag unrhyw drydydd partion y byddwn yn dewis gwerthu, trosglwyddo neu gyfuno rhannau o'n busnes neu asedau gyda nhw. Fel arall, efallai y byddwn yn ceisio caffael busnesau eraill neu uno gyda nhw. Os bydd newid yn digwydd i'n busnes, yna gallai'r perchnogion newydd ddefnyddio eich data personol yn yr un modd ag y sefydlir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Rydym yn gofyn i'r holl drydydd partion barchu diogelwch eich data personol ac i'w drin yn unol â'r gyfraith. Nid ydym yn caniatáu i'n darparwyr gwasanaethau trydydd parti ddefnyddio eich data personol i'w dibenion eu hunain a dim ond yn caniatáu iddynt gael mynediad at eich data personol i ddibenion penodedig ac yn unol â'n cyfarwyddiadau.

TROSGLWYDDIADAU RHYNGWLADOL

Nid ydym yn trosglwyddo eich data tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

DIOGELWCH DATA

Rydym wedi sefydlu mesurau diogelwch priodol i atal eich data personol rhag cael ei golli, defnyddio neu gyrchu yn ddamweiniol heb awdurdod, ei ddata neu ei ddatgelu. Yn ogystal, rydym yn cyfyngu mynediad at eich data personol i gyflogeion, asiantau, contractwyr a thrydydd partion eraill sydd ag angen busnes i wybod. Dim ond dan ein cyfarwyddyd ni fyddant yn prosesu eich data personol ac maent yn destun dyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi sefydlu gweithdrefnau i ddelio gydag unrhyw doriad data personol a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol o doriad ble mae'n ofyniad cyfreithiol i ni

wneud hynny.

AM BA HYD FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL?

Dim ond am ba bynnag hyd fydd angen i gyflawni'r dibenion dros gasglu fyddwn ni'n cadw eich data personol, gan gynnwys i ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifo neu adrodd.

I bennu'r cyfnod dargadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried swm, natur, a sensitifrwydd y data personol, y risg bosibl o niwed o ddefnydd heb awdurdod neu ddatgelu eich data personol, i ba ddiben ydyn ni'n prosesu eich data personol ac os allwn ni gyflawni'r dibenion hynny trwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Gallwch ofyn i ni am gyfnodau dargadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch data personol trwy gysylltu â'n Rheolwr Diogelu Data.

Dan rai amgylchiadau eraill y byddwn yn gwneud eich data yn ddiennw (fel na fydd bellach yn gysylltiedig i chi) i ddibenion ymchwil neu ystadegol, ble gallwn ddefnyddio'r wybodaeth yma am gyfnod penagored heb hysbysiad pellach i chi.

EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mae gennych hawl i:

Ofyn am fynediad i'ch data personol (a elwir yn gyffredinol yn "gais gwrthrych am wybodaeth"). Mae hyn yn eich galluogi i dderbyn copi o'r data personol sudd gennym amdanoch ac i wirio ein bod yn ei brosesu yn gyfreithlon.

Gofyn am gywiriad i'r data personol sydd gennym amdanoch chi. Mae hyn yn eich galluogi i gael cywiro unrhyw ddata anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch, er y gall fod angen i ni ddilysu cywirdeb y data newydd a ddarparwch i ni.

Gofyn am ddileu eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu ddiddymu data personol ble nad oes rheswm da i ni barhau i'w brosesu. Mae gennych hefyd hawl i ofyn i ni ddileu neu ddiddymu eich data personol os ydych wedi llwyddo i arfer eich hawl i wrthwynebu i brosesu (gweler isod), ble gallwn fod wedi prosesu eich gwybodaeth yn anghyfreithlon neu ble mae'n ofynnol i ni ddileu eich data personol i gydymffurfio â chyfreithiau lleol. Sylwer, fodd bynnag, na fyddwn yn gallu cydymffurfio gyda'ch cais i ddileu ar bob adeg am y rhesymau cyfreithiol penodol fydd yn cael eu hysbysu i chi, os yn berthnasol, ar adeg eich cais.

Gwrthwynebu i brosesu eich data personol ble rydym yn dibynnu ar fudd cyfreithlon (neu rai trydydd parti) a bod rhywbeth ynghylch eich sefyllfa benodol sy'n gwneud i chi fod eisiau gwrthwynebu i brosesu ar y sail yma gan eich bod yn teimlo ei fod yn effeithio ar eich hawliau a rhyddidau sylfaenol. Mae gennych hefyd hawl i ofyn i wrthwynebu ble rydym yn prosesu eich data personol i ddibenion marchnata uniongyrchol. Mewn rhai achosion, gallwn arddangos fod gennym sail gyfreithiol gymhellol i brosesu eich gwybodaeth sy'n drech i'ch hawliau a rhyddidau.

Gofyn am gyfyngu prosesu eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu eich data personol yn y senarios canlynol: (a) os ydych chi eisiau i ni sefydlu cywirdeb y data; (b) ble mae ein defnydd o'r data yn anghyfreithlon ond nad ydych eisiau i ni ei ddileu;

(c) ble rydych angen i ni ddal y data hyd yn oed os nad ydym ei angen bellach gan eich bod ei angen i sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliad cyfreithiol; neu (d) rydych wedi gwrthwynebu i'n defnydd o'ch data ond rydym angen dilysu os oes gennym sail gyfreithiol drech i'w ddefnyddio.

Gofyn am drosglwyddo eich data personol i chi neu drydydd parti. Byddwn yn darparu eich data personol i chi, neu i drydydd parti yn ôl eich dewis, ar ffurf strwythuredig, gyffredin, darllenadwy gan beiriant. Sylwer mai dim ond i wybodaeth awtomataidd ble darparoch gydsyniad yn gychwynnol i ni ddefnyddio'r wybodaeth i gyflawni'r contract gyda chi.

Dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg ble rydym yn dibynnu ar gydsyniad i brosesu eich data personol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn effeithio ar gyfreithlondeb unrhyw brosesu i'w gyflawni cyn i chi dynnu eich cydsyniad yn ôl. Os byddwch yn tynnu eich cydsyniad yn ôl, efallai na fyddwn yn gallu darparu cynnyrch neu wasanaethau penodol i chi. Byddwn yn eich cyngori os yw hyn yn wir ar yr adeg y byddwch yn tynnu eich cydsyniad yn ôl.

Nid ydym yn casglu data yn ymwneud â phlant yn fwriadol.

Fel arfer nid oes angen talu ffi Ni fydd yn rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad at eich data personol (neu i arfer unrhyw rai o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, efallai y byddwn yn codi ffi resymol os yw eich cais yn amlwg yn ddi-sail, ailadroddus neu'n ormodol. Fel arall, efallai y byddwn yn gwrthod cydymffurfio gyda'ch cais dan yr amgylchiadau hyn.

Efallai y bydd angen i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych chi i'n helpu i gadarnhau eich hunaniaeth a sicrhau eich hawliau i gael mynediad at eich data personol (neu i arfer unrhyw rai o'ch hawliau eraill). Mae hyn yn fesur diogelwch i sicrhau nad yw data personol yn cael ei ddatgelu i unrhyw un nad oes ganddo hawl i'w dderbyn. Efallai y byddwn hefyd yn cysylltu â chi i ofyn i chi am ragor o wybodaeth parthed eich cais i gyflymu ein hymateb.

Byddwn yn ceisio ymateb i'r holl geisiadau cyfreithlon o fewn mis. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd yn cymryd mwy o amser na mis i ni os yw'ch cais yn arbennig o gymhleth neu os ydych wedi gwneud nifer o geisiadau. Os felly, byddwn yn eich hysbysu ac yn eich diweddarau.